

Cynllun Cynorthwyo Gwaed
wedi'i haentio Cymru

Wales Infected Blood
Support Scheme



CYSYLLTWCH Â NI

CYLCHLYTHYR WIBSS

Rhagfyr 2022

Taliadau Plant

Mae Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru wedi cytuno'n ddiweddar i gyflwyno Taliadau Dewisol i Blant fel rhan o Gynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru. Bydd y taliadau hyn ar gael o 1 Ionawr 2023.

Mae'r taliad wedi'i fwriadu ar gyfer gofal a chymorth i blentyn/plant, hyd at 18 neu 21 oed, os ydynt mewn addysg amser llawn, sydd naill ai'n blentyn biolegol neu'n rhan o aelwyd buddiolwr heintiedig (gall hyn fod yn blentyn/plant mabwysiedig neu'n blentyn/plant partner i fuddiolwr heintiedig y maent yn byw gydag ef/hi). Y taliad fydd £3,000 ar gyfer y plentyn cyntaf a £1,200 ar gyfer yr ail blentyn ac unrhyw blant dilynol.

Os credwch fod hyn yn berthnasol i chi neu eich cartref, cysylltwch â ni ar 02920 902280. Bydd ffurflen gais a nodyn canllaw ar gael o fis Ionawr. Gellir lawrlwytho'r rhain o wefan WIBSS, neu gellir anfon copïau caled yn y post ar gais.

Oriau Nadolig

Fel blynyddoedd blaenorol, bydd WIBSS yn gweithredu yn unol ag oriau swyddfa arferol drwy gydol cyfnod y Nadolig, ond bydd rhai staff yn cymryd seibiant haeddiannol. Oherwydd gwyliau banc, bydd y swyddfa ar gau ar 26 a 27 Rhagfyr, ac 2 Ionawr 2023.

Mae taliadau Rhagfyr wedi'u prosesu a byddant yn dod i law erbyn 20 Rhagfyr fan bellaf.

Bodddhad â'r Gwefan

Os oes gennych unrhyw sylwadau, rydym wedi ychwanegu adran adborth yn ddiweddar ar gyfer gwella ein gwefan WIBSS.

Cysylltwch â WIBSS ar
02920 902280 neu
anfonwch e-bost at
wibss@wales.nhs.uk

Os nad yw eich galwad yn cael ei hateb, gadewch neges gyda'ch enw a'ch rhif cyswllt a byddwn yn eich ffonio yn ôl yn brydlon.


Ar gyfer Seicoleg a Llesiant anfonwch e-bost at:

wibss.wellbeing@wales.nhs.uk

Cyswllt Diweddar

Rydym yn cymryd eich gwybodaeth bersonol o ddifrif.

Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch tarddiad llythyr yn gofyn am eich data personol, sy'n ymddangos fel pe bai'n dod o WIBSS, cysylltwch â ni ar ein llinell uniongyrchol, **02920 902280**.



Cynllun Cynorthwyo Gwaed
wedi'i haentio Cymru

Wales Infected Blood
Support Scheme



Dewisiadau Cyfathrebu

Os ydych wedi dewis derbyn e-byst gan WIBSS, byddwch yn gwybod mai ein cyfeiriad e-bost safonol yw wibss@wales.nhs.uk. O fis Rhagfyr 2022 byddwn yn defnyddio cyflenwr e-bost newydd, felly bydd e-byst yn cael eu derbyn gan WIBSS@notifications.service.gov.uk. Os ydych yn derbyn y cylchlythyr hwn neu ohebiaeth WIBSS arall, gan gynnwys cyngor talu, drwy'r post, ond byddai'n well gennych dderbyn y cyfan yn ddigidol yn y dyfodol, cysylltwch â ni ar wibss@wales.nhs.uk i ofyn am newid.

HAWL I FUDD-DALIADAU

Darparu cyngor cyfrinachol i chi a'ch teulu ynglŷn â Budd-daliadau, Arian, Eiriolaeth, Cymorth a mwy.

Cymorth Ychwanegol – Aelwydydd Pensiynwyr


Oeddech chi'n gwybod bod yr Adran Gwaith a Phensiynau yn amcangyfrif bod £1.7 biliwn o Gredyd Pensiwn heb ei hawlio gan hyd at 1 miliwn o aelwydydd pensiynwyr yn y flwyddyn ariannol 2021/2022?

Mae Credyd Pensiwn yn fudd-dal wythnosol i roi hwb i'ch incwm. Mae'n seiliedig ar faint o arian sydd gennych yn dod i mewn. Dyma'r cyfraddau cyfredol (a fydd yn codi yn unol â chwyddiant Ebrill 2023):

- Os yw eich incwm wythnosol yn is na £182.60 yna bydd Credyd Gwarant yn ychwanegu at y swm hwnnw.
- Os ydych yn gwneud cais fel cwpl a bod eich incwm yn is na £278.70 caiff ei ychwanegu at y swm hwnnw.

Gall eich incwm fod yn uwch na £182.60 neu £278.70 os ydych yn gymwys i gael symiau ychwanegol fel yr ychwanegiad anabledd difrifol neu ofalwr. Gall eich incwm fod yn uwch hefyd os ydych yn talu morgais.

Bydd unrhyw gynilion neu fuddsoddiadau dros £10,000 yn effeithio ar swm y Credyd Pensiwn a gewch. Byddwch yn cael eich trin fel pe bai gennych £1 yr wythnos o incwm am bob £500 dros £10,000. **YN BWYSIG** Mae cyllid a dderbyniwyd oddi wrth WIBSS a'r cynlluniau gwaed heintiedig blaenorol, i gynnwys cyfandaliadau, taliadau misol/chwarterol, ynghyd â thaliad iawndal interim o £100,000, i gyd wedi'u **HEITHRIO** o'r cyfrifiadau incwm a chynilion. Bydd hyn ond yn cynnwys ffynonellau incwm eraill megis pensiwn y wladwriaeth, pensiwn preifat neu enillion gan gyflogwyr.



Cynllun Cynorthwyo Gwaed
wedi'i haentio Cymru

Wales Infected Blood
Support Scheme



Os ydych yn cael Credyd Pensiwn gallwch hefyd gael help arall, fel:

- Budd-dal Tai os ydych yn rhentu'r eiddo rydych yn byw ynddo
- Cefnogaeth ar gyfer Llog Morgais os ydych yn berchen ar yr eiddo rydych yn byw ynddo
- trwydded deledu am ddim os ydych yn 75 oed neu'n hŷn
- cymorth gyda thriniaeth ddeintyddol, sbectol a chostau cludiant y GIG ar gyfer apwyntiadau ysbyty
- help gyda'ch costau gwresogi

Os ydych chi'n meddwl y gallai hyn fod yn berthnasol i chi neu rywun sy'n agos atoch chi - cysylltwch â'ch tîm hawliau budd-daliadau penodedig ar 02920 902280 fel y gallwn eich cynorthwyo gyda gwiriad budd-daliadau a phob cam o'r cais.

Tîm Seicoleg a Llesiant Effaith Emosiynol yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig

O siarad â phobl sy'n defnyddio ein gwasanaeth, croesawyd yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig parhaus fel llwyfan i ddatgelu'r gwir a deall yr amgylchiadau sy'n ymwneud â danfon gwaed a chynhyrchion gwaed heintiedig. Mae'r Ymchwiliad, fel ffocws i rai, wedi bod yn lle defnyddiol i ddod ynghyd i fynegi teimladau o golled, dicter a diymadferthedd (i enwi dim ond rhai). Mae hyn wedi'i waethygu gan drama ac ymdeimlad cryf o anghyfiawnder wrth i bobl ail-fyw atgofion a phrofiadau anodd o'r gorffennol.

Rydym yn gwerthfawrogi bod yr awydd am gyfiawnder wedi bod yn obaith i lawer ac, yn realistig, efallai na fydd canlyniad yr Ymchwiliad yn bodloni disgwyliadau pawb. Mae Gwasanaeth Seicoleg a Lles Chynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS), felly, yn ystyried pa agweddau o gefnogaeth y teimlwch y gallai fod eu hangen arnoch unwaith y daw'r Ymchwiliad i ben, a bydd cyfleoedd cymunedol, gyda'r rhai sy'n rhannu profiadau tebyg, yn lleihau. Os hoffech siarad ag un o'r tîm am eich teimladau mewn perthynas â'r Ymholiad i Waed Heintiedig a'ch bod wedi cofrestru gyda Chynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru (neu'n aelod o deulu rhywun sydd wedi cofrestru gyda WIBSS) yna mae croeso i chi gysylltu â ni ar: 029 20196141, neu drwy e-bost: wibss.wellbeingsservice@wales.nhs.uk

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn gwyllo'r sesiwn dystiolaeth y bu Dr Coffey ynddi; mae ar gael ar wefan yr Ymchwiliad IBI; <https://www.infectedbloodinquiry.org.uk/evidence/transcript-london-friday-11-november-2022-keith-carter-and-specialist-psychological>.



Dymunwn dymor Nadoligaidd dymunol
a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd, **Tim**
WIBSS